

Cafodd eglwys Sant Ellyw ei hadeiladu yn y 13eg ganrif a'i hadnewyddu yn 1905 gan Baldwin o Aberhonddu. Breiniwyd hi i'r Friends of Friendless Churches yn 1999 a gwnaethpwyd gwaith trwsio yn 2000. Saif yr eglwys ar ben Cwm Rhyd-Ellyw o fewn mynwent hirgrwn gyda wal o'i hamgylch sydd yn awgrymu tarddiad cyn-Gristnogol neu yn gynnar yn y cyfnod Cristnogol. Adnabuwyd Sant Ellyw yn betrus gyda Santes Eluned, un o ferched y Brenin Brychan o Frycheiniog yn y 5ed ganrif OC neu hyd yn oed gyda Sant Elli, disgybl i Sant Cadog, ond nid yw'r dadleuon yn argyhoeddi. Mae'n debyg mai dynes leol oedd hi, yn byw bywyd meudwyol unig yn y lle hwn.



Tu allan

Adeiladwyd yr eglwys o rwbel tywodfaen gyda tho llechen. Mae gan y mur gogleddol ddwy ffenestr bigfain fychain o'r 13eg ganrif; ac mae tair ffenestr pen sgwâr ar y mur deheuol. Ar bob un o'r muriau dwyreiniol a gorllewinol ceir un ffenestr dwy ran, o'r 15eg ganrif fwyaf tebyg. Ychwanegwyd y cyntedd deheuol talcennog gyda ffrâm derw yn y 16eg ganrif i gymryd lle'r porth canoloesol i'r dwyrain ohono. Yn erbyn ei mur gorllewinol mae dau biler carreg wedi eu cerfio â chroesau blêr Celtaidd yr olwg, fwyaf tebyg yn dyddio o'r 7fed-9fed ganrif. Ymhellach i'r dwyrain o'r cyntedd ceir porth cul offeiriad o'r 13eg ganrif. Ar y mur de-orllewinol ceir deial haul tywodfaen gyda'r arysgrif PB WARDEN 1686. Ychwanegwyd y tyred cloch pren talcennog gan Baldwin yn 1905: mae'n cynnwys dwy gloch, un c.1180 a'r llall c.1300. Recordiwyd eu tôn canoloesol dilys ar gyfer cyfres deledu *Brother Cadfael*.

Tu mewn

Y prif nodwedd yw'r sgrin gymhleth o'r 14eg neu'r 15fed ganrif. Wedi ei beintio yn goch, mae ganddo rosod gwyn stensiliedig a darlun heb ei beintio yn y canol o'r groglennu'r grog, sydd bellach ar goll. Gosodwyd yr ail sgrin bren gyda rhosod cochion stensiliedig dan goed ar y naill ochr i'r ffordd i'r corff i amgáu allorau corff. Torrwyd y sgrin hon yn ôl ar y pen deheuol i fewnosod y grisiau i'r pulpud sy'n dyddio yn gynnar o'r 18fed ganrif gynnar. Mae'r rheiliau cymun, dau sedd gefn derw a chlawr y fedyddfaen yn dyddio o ddiwedd yr 17fed ganrif.

Roedd y plaster wal canoloesol cynnar yn addurnedig iawn ond cafodd ei orchuddio wedi'r oesoedd canol, ond datgelwyd rhai peintiadau yn ddiweddar. Ar y mur gorllewinol, mewn amlinelliad du, ceir Adda ac Efa a Phren Bywyd gyda phen y sarff. Mae addurniadau canoloesol eraill yn cynnwys y patrymau blodau stensiliedig o'r 14eg ganrif ar ben dwyreiniol y mur



gogleddol. Mae'r arfbais frenhinol fawr a phaneli testunol yn dyddio o ddiwedd yr 17fed ganrif.



Ceir sawl cofadail, yr hynaf yn garreg fedd o 1640 yn llawr y cysegr. Ar garreg yn y ffenestr gogledd-ddwyreiniol cofnodir y rhodd blyneddol o arian i blant tlawd 'lawfully begot'. Mae'r arysgrif yn Gymraeg er cof am Thomas Jones (bu farw 1778), a oedd wedi mynd yn ddall, yn darllen (sic):

*Gweddeidd-dra Mwyneidd-dra dib^e
A Gafodd pan colodd e'r Goleu;
Gwych Delunwr Tonwr Tannau,
Gafodd Ddawn llawn yn ei Lê.*

Eglwysi eraill sydd dan ofal y Friends ger Sant Ellyw, Llanelu

Capel Castell Urishay, ger Peterchurch, swydd Henffordd. Cafodd y capel hwn, o'r oesoedd canol cynnar wedi ei ail do i yn rhannol gennym ni, ei adeiladu i wasanaethu'r castell, a gynrychiolir gan y domen gerllaw (eglwys ar agor).

Sant Peter, Llancillo Eglwys anghysbell ar ochr Swydd Henffordd o'r ffin. Bedyddfaen o'r 13eg ganrif a phulpudd gyda cherfiadau arabésig yn dyddio o 1632 ac 1745 (eglwys ar agor).



Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysi sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1957 rydym wedi ymgyrchu i eglwysi sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysi hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fydddech yn fodlon ymuno a'n helpu?

Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi...

Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi byddwch yn helpu i achub eglwysi. Yn ogystal, byddwch yn derbyn tri chylchlythyr hardd, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgysiaiu, cyfarfodydd a llyfrau.




Cyfrannu

Anfonwch sic, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, 70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ.

Neu ewch at y wefan.

Yr ydym yn cymryd gofal i gadw ein costau gweinyddiaeth yn isel iawn. Â cyfraniadau yn uniongyrchol tuag at achub ac atgyweirio eglwysi. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934.

www.friendsoffriendlesschurches.org.uk


Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol   

Rhif Elusen Gofrestredig : 1113097



Santes Fair, Llanfair Cilgedin Ar lan yr afon Wysg. Enwog am ei phaneli sgraffiti yn dangos y Benedicite wedi ei osod yn y tirwedd lleol, gan Heywood Sumner. Ein heglwys mwyaf poblogaidd. Yn denu cannoedd o ymwelwyr bob blwyddyn (i gael mynediad cysylltwch â'r swyddfa).

Dewi Sant, Llangeview Heb fod ymhell o Frynbuga. Y rhan fwyaf o'r 15fed ganrif, gyda sgrin a lloft y grog. Seddi, pulpudd a sedd yswain fawr yn waith aruchel o'r ddeunawfed ganrif. Anghysbell a heddychlun (eglwys ar agor).



FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



Eglwys Sant Ellyw Llanelu

cyflwyniad i'w hanes